Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Caerdydd
# Llandennis Road
# Cyncoed
# Caerdydd
# CF23 6WG

# Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2019

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Uwchradd Caerdydd

Mae Ysgol Uwchradd Caerdydd yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 18 oed, wedi'i lleoli yng ngogledd dinas Caerdydd. Mae 1,613 o ddisgyblion ar y gofrestr, y mae 422 ohonynt yn y chweched dosbarth. Ar adeg yr arolygiad diwethaf ym Mawrth 2013, roedd 1,496 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 373 yn y chweched dosbarth. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ardaloedd preswyl cyfagos Cyncoed, Lakeside a'r Rhath.

Mae tua 6% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 16.4%. Mae amrywiaeth o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r ysgol. Saesneg yw mamiaith mwyafrif y disgyblion. Mae 435 o ddisgyblion wedi'u categoreiddio'n ddisgyblion â Saesneg fel iaith ychwanegol a daw tua 36% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae un y cant o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith.

Mae canran y disgyblion ag anghenion addysgol arbennig tua 18%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 22.9%. Mae canran y disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig (2.4%) ychydig uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.2%. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol sy'n gwasanaethu'r awdurdod lleol ac mae lle yno i 15 o ddisgyblion ag anawsterau dysgu penodol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau'n gysylltiedig â diwygio addysg yng Nghymru.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2011. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys dirprwy bennaeth, pedwar pennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes yr ysgol. Roedd yr holl uwch arweinwyr yn eu swydd ar adeg yr adolygiad blaenorol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Uwchradd Caerdydd yn ysgol eithriadol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyflawniadau disgyblion wedi bod ymhlith y gorau yng Nghymru, ac eto mae'r ysgol wedi ymdrechu'n ddygn i wella ym mhob agwedd ar ei gwaith. Yn benodol, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar fireinio'i dulliau o gynorthwyo pob athro i hogi'i grefft. Mae hyn wedi arwain at addysgu hyderus a dychmygus, sy'n hoelio sylw'n bendant ac sydd wedi'i wreiddio mewn dealltwriaeth gadarn o ddysgu a gwybodaeth am y pwnc.

Mae disgyblion yn ymateb yn hynod gadarnhaol i'r addysgu ysbrydoledig a'r lefelau uchel o her. Yn benodol, datblygant eu galluoedd i feddwl yn greadigol ac adalw a throsglwyddo'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau i amrywiaeth eang o gyd-destunau dysgu. O ganlyniad, mae deilliannau disgyblion ymhell uwchlaw'r disgwyliadau. Mae addysgu, gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel yn cyfuno'n effeithiol i alluogi disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus, galluog ac uchelgeisiol.

Mae'r arweinyddiaeth yn rhagorol. Caiff ei dosbarthu yn eang ac yn effeithiol ac mae pawb yn gwybod beth yw eu rhan mewn datblygu'r ysgol. Mae arweinwyr yn pwysleisio ac yn hyrwyddo pwysigrwydd lles i staff a disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac mae morâl y staff yn uchel.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

Dylai'r ysgol barhau ar ei thaith wella. Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn dilyn yr arolygiad hwn..

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn ymwneud â chynnal rhagoriaeth, i'w lledaenu ar wefan Estyn. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i gynnal y safonau uchel ac ansawdd uchel y ddarpariaeth.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Mae deilliannau disgyblion wedi bod ymhell uwchlaw disgwyliadau gydag amser. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw'u gwybodaeth flaenorol yn sicr, yn croesawu syniadau newydd yn frwd ac yn cyfnerthu'u dysgu'n arbennig o dda. Mae ganddynt lawer o symbyliad, dangosant lefel uchel o ddiddordeb yn eu gwaith ac ymatebant yn gadarnhaol i her. O ganlyniad, gwnânt gynnydd cryf wrth feithrin eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Agwedd eithriadol ar safonau disgyblion yw'r ffordd y datblygant eu medrau meddwl ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn dadansoddi, yn gwerthuso, yn meddwl yn feirniadol ac yn datrys problemau'n fwyfwy deheuig mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cysylltiadau creadigol, herio'u hunain a dwysáu eu dysgu. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion feddyliau chwilfrydig ac ymchwilgar.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ac mae llawer ohonynt yn ymateb yn frwd i gwestiynau'u hathrawon. Mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniadau ystyrlon at drafodaethau dosbarth, er enghraifft mewn addysg gorfforol wrth esbonio sut i gynnal momentwm ym mhob cam y naid driphlyg. Mae llawer o ddisgyblion yn mynegi'u syniadau'n glir ac yn hyderus, er enghraifft wrth gyfiawnhau eu dewisiadau o gyfryngau i ddarlunio materion amgylcheddol yn eu gwaith celf. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio amrywiaeth eang o eirfa. Mae eu defnydd a'u dealltwriaeth o eirfa penodol i bwnc yn dod yn fwyfwy soffistigedig wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn gofyn cwestiynau arbennig o graff i'w cymheiriaid a'u hathrawon. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu'u medrau beirniadol yn arbennig o lwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn dda ac yn dod o hyd i wybodaeth allweddol yn effeithlon. Mae llawer ohonynt yn dod i gasgliadau yn fedrus o amrywiaeth fawr o destunau, gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyfosod tystiolaeth yn gymwys o wahanol ffynonellau i feithrin eu dealltwriaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn dadansoddi amrywiaeth o adroddiadau'r cyfryngau i lunio bwletin newyddion ar faterion cyfoes, fel argyfwng ariannu'r GIG, yr ymchwiliwyd yn dda iddo.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth sicr o dechnegau llenyddol a nodweddion arddulliadol allweddol ysgrifennu, y maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i'w gwaith eu hunain mewn amrywiaeth eang o ffurfiau a genres llenyddol. Er enghraifft, defnyddiant eu gwybodaeth am symbolaeth, personoliad a chyflythreniad mewn nofelau Gothig yn llwyddiannus i lywio'u hysgrifennu creadigol eu hunain. Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiadau medrus o'u prydau coginio gan ddefnyddio geiriau priodol i ddisgrifio blas ac ansawdd. Mae llawer ohonynt yn cynhyrchu darnau strwythuredig o waith ysgrifennu estynedig mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn golygu, ailddrafftio a mireinio'u gwaith yn ddeallus i wneud gwelliannau i'w gwaith ysgrifenedig. Maent yn trosglwyddo'u dysgu mewn Saesneg i bynciau eraill yn hyderus fel eu bod yn ysgrifennu'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau rhifedd. Cymhwysant y medrau hyn yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan eu galluogi i fynd i'r afael ag amrywiaeth o broblemau, darganfod gwybodaeth newydd ac ymestyn eu dealltwriaeth mewn gwahanol bynciau. Er enghraifft, mewn technoleg dylunio, mae disgyblion Blwyddyn 7 yn ymchwilio i ddata ar gyfraneddau pobl trwy gasglu mesuriadau o ddwylo'u cyfoedion i lywio dyluniad eu cynhyrchion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhif yn ddeheuig, er enghraifft wrth gyfrifo faint o ynni mae'r Grid Cenedlaethol yn ei golli. Tynnant luniau graffiau gan ddefnyddio echelinau addas a graddfeydd cywir, gan ddod i gasgliadau perthnasol o'u canfyddiadau. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gallu dehongli, dadansoddi a chyfosod gwybodaeth o amrywiaeth o graffiau yn fedrus, er enghraifft mewn astudiaethau busnes, lle y maent yn archwilio ffigurau gwerthu ac yn dod i gasgliadau am gylchred oes cynnyrch.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio amgylchedd dysgu rhithwir yr ysgol fel mater o arfer, gan eu galluogi i ddatblygu'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda trwy gydweithio â'u cymheiriaid a'u hathrawon. Mae llawer o ddisgyblion yn ymarfer, yn cymhwyso ac yn datblygu'r medrau hyn yn fedrus ar draws y rhan fwyaf o bynciau. Maent yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus, gan ddefnyddio amrywiaeth o becynnau meddalwedd. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni yn gymwys. Mae bron pob un o'r disgyblion yn chwilio'n effeithlon am wybodaeth ar y rhyngrwyd, gan werthuso dibynadwyedd ffynonellau a chyfeirio'n gywir at y rhain yn eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau Cymraeg. Darllenant yn hyderus a siaradant gan ynganu'n gywir, gyda hyder cynyddol, wrth symud ymlaen drwy'r cyfnodau allweddol. Ysgrifennant ddarnau estynedig gan ddefnyddio amrywiaeth eang o eirfa a nifer o amserau'r ferf yn dda. Yn 2018, enillodd y rhan fwyaf o'r disgyblion gymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg, a chyflawnodd cyfran uchel raddau A*-A.

Yn y chweched dosbarth, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dwysáu ac yn ymestyn eu gwybodaeth am bwnc yn llwyddiannus. Mynegant eu syniadau gydag aeddfedrwydd cynyddol, gan ddefnyddio geirfa dechnegol goeth, er enghraifft wrth ddadansoddi arwyddion, symbolau ac iaith yn y cyfryngau. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau dadansoddi datblygedig ac yn mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o broblemau go iawn yn hyderus, er enghraifft wrth gymhwyso damcaniaethau tebygolrwydd i wybodaeth am ymchwil feddygol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion wedi bod yn eithriadol o gryf dros y blynyddoedd diwethaf. Yn yr holl ddangosyddion, mae perfformiad disgyblion wedi bod yn nodedig uwchlaw disgwyliadau. Mae pob grŵp o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Mae perfformiad bechgyn a merched, a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn cymharu'n dda iawn â pherfformiad eu cymheiriaid mewn ysgolion tebyg. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn aros mewn addysg amser llawn, naill ai yn yr ysgol neu mewn coleg addysg bellach.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn cyflawni'n dda iawn. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni tair gradd A*-A a sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach disgyblion oll yn cymharu'n ffafriol â deilliannau disgyblion mewn ysgolion tebyg.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae disgyblion yn Ysgol Uwchradd Caerdydd yn datblygu'u lles a'u gwydnwch yn eithriadol o dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddysgwyr penderfynol, brwdfrydig a hyderus, ac yn awyddus i chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol a'r gymuned.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi ac maent yn ddysgwyr uchelgeisiol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gallu gweithio'n annibynnol am gyfnodau estynedig, gosod safonau uchel i'w hunain a mwynhau profiadau a thasgau newydd. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos lefelau arbennig o uchel o ddyfalbarhad yn eu dysgu, yn enwedig pan fyddant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau heriol, er enghraifft mewn drama, wrth ddefnyddio dulliau cyfoes o greu theatr gan ddefnyddio symud haniaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio'n dda mewn parau a grwpiau, gan wrando'n ofalus ar syniadau disgyblion eraill yn ogystal â mynegi'u safbwyntiau'u hunain yn glir ac yn ddealladwy, er enghraifft mewn ymarfer corff, pan fydd disgyblion yn arwain eu cymheiriaid drwy weithgareddau cynhesu.

Mae disgyblion yn ffynnu yn yr ethos digynnwrf, gofalgar a chefnogol sy'n treiddio trwy gymuned yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn hyderus y bydd staff yn datrys unrhyw anawsterau'n effeithiol a gwyddant at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a moesgar tu hwnt i bobl eraill. Mae lefelau uchel o ymddiriedaeth a pharch rhwng disgyblion, staff ac oedolion eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn llu o weithgareddau amrywiol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Nodwedd arbennig o gryf yw cynnwys disgyblion mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae senedd yr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae ei haelodau'n cymryd rhan mewn arsylwadau dysgu ac addysgu yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ac mewn ysgolion eraill, gan wneud awgrymiadau defnyddiol a pherthnasol ar gyfer gwelliannau. Mae grwpiau ffocws disgyblion yn chwarae rhan annatod wrth lywio'r cwricwlwm a dylanwadu ar ddulliau addysgu i ymestyn eu dysgu. Maent wedi dylanwadu ar arfer, fel newid natur yr adborth i ddisgyblion mewn rhai pynciau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a'r angen i wneud ymarfer corff yn rheolaidd i gadw'n heini. Mae cyfraddau cyfranogiad yn y rhaglenni allgyrsiol helaeth, sy'n cynnwys amrywiaeth fawr o weithgareddau diwylliannol, chwaraeon ac academaidd, yn uchel iawn ac maent yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Trwy'r gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn datblygu'u medrau cymdeithasol, arwain a'u medrau bywyd yn effeithiol. Mae hyn yn arwain at lefelau uchel o hunanhyder ymhlith disgyblion. Maent yn cymhwyso'r priodweddau hyn yn llwyddiannus mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau, er enghraifft bod yn swyddogion, bod yn fentoriaid cymheiriaid i ddisgyblion iau a chymryd rhan mewn prosiectau cadwraeth leol trwy waith y clwb eco. Yn ogystal, mae 'arweinwyr digidol' yn datblygu ystod eang o fedrau'n effeithiol trwy hyfforddi disgyblion, athrawon ac oedolion eraill i ddatblygu'u hyfedredd mewn TGCh. Mae disgyblion sy'n cymryd rhan yn y pwyllgor elusennau'n elwa'n fawr o greu cysylltiadau cymunedol cryf â mudiadau elusennol. Yn y Caffi Athroniaeth, sef clwb sy'n galluogi disgyblion i archwilio credoau a bywydau pobl eraill, maent yn ymhél â materion cyfoes ac yn herio'u safbwyntiau a'u rhagdybiaethau'u hunain.

Mae lefelau presenoldeb yn gryf iawn. Mae presenoldeb pob grŵp o ddisgyblion ymhell uwchlaw presenoldeb yr un grwpiau mewn ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Ar y cyd â'r cwricwlwm hynod ymatebol a'r ddarpariaeth ragorol ar gyfer datblygu medrau'n gynyddol, mae addysgu'n gwneud cyfraniad arwyddocaol tu hwnt at y safonau eithriadol a gyflawnir gan ddisgyblion. Mae ansawdd cyson uchel yr addysgu ar draws yr ysgol yn nodwedd eithriadol. Caiff ei gynnal a'i wella gan y diwylliant dysgu proffesiynol cyfoethog a bywiog.

Mae bron pob un o'r athrawon yn creu amgylcheddau dysgu croesawgar a chadarnhaol. Maent yn sefydlu arferion defnyddiol ac yn gosod disgwyliadau uchel tu hwnt ar gyfer perfformiad a chyfranogiad, wedi'u teilwra i anghenion penodol y disgyblion a'r pwnc. Hefyd, mae'r athrawon hyn yn defnyddio gwybodaeth fanwl am gyrhaeddiad blaenorol eu disgyblion i bennu'n union y wybodaeth, y medrau a'r ddealltwriaeth sydd i'w datblygu. O ganlyniad, maent yn pennu union lefel yr her y mae ei hangen i gau'r bwlch rhwng potensial a pherfformiad ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion.

Nodwedd hynod effeithiol o addysgu yw'r cynnwys diddorol y mae bron pob un o'r athrawon yn ei gynllunio ar gyfer eu gwersi. Tynnant yn llwyddiannus ar eu gwybodaeth gynhwysfawr am y pwnc a'u brwdfrydedd tuag at eu maes cwricwlaidd i osod eu gwersi mewn cyd-destun yn fedrus. Er enghraifft mewn gwersi gwyddoniaeth, mae athrawon yn defnyddio rhyddiaith gan awdur lleol a delweddau o Gaerdydd fel 'dinas glo' yn ddychmygus i lunio gwers ar sail ffurfiant y ffynhonnell egni hon a'r defnydd ohoni. Mae cynllunio gan y rhan fwyaf o athrawon hefyd yn cynnwys cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn y ffordd fwyaf addas.

O ganlyniad i gyfleoedd dysgu proffesiynol helaeth yr ysgol, mae bron pob un o'r athrawon yn yr ysgol yn dangos hyblygrwydd a dawn yn eu harfer. Cyfunant offer a thechnegau cynllunio gwersi a myfyrio'r ysgol gyda'r ymagweddau mwyaf addas at ddysgu ac addysgu yn eu pwnc. Yn nodedig, mae'r rhan fwyaf o wersi'r chweched dosbarth yn dangos yr addysgu hynod effeithiol a welir yng ngweddill yr ysgol.

Mae esboniadau a chyfarwyddiadau'r rhan fwyaf o'r athrawon yn glir, yn ddifyr ac yn ddadlennol, a phwysleisiant y defnydd o eirfa penodol i bwnc. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg, mae athrawon yn esbonio priod-ddulliau i ddisgyblion a sut mae'r rhain yn cyfieithu'n llythrennol ac yn drosiadol. Yn y rhan fwyaf o bynciau, mae athrawon yn modelu disgwyliadau'n dda, er enghraifft wrth rannu enghreifftiau buddiol gan ddisgyblion yn y dosbarth i enghreifftio technegau llenyddol effeithiol wrth astudio 'A Woman in Black'.

Yn y gwersi mwyaf effeithiol, gosodir cyflymder yn ofalus i gyfateb i'r dasg. Mae lefel yr her yn datblygu trwy weithgareddau wedi'u dilyniannu'n ofalus, sy'n adeiladu ar ei gilydd yn bwrpasol. Mae hyn yn galluogi bron pob un o'r disgyblion i wneud cynnydd eithriadol. Er enghraifft, wrth ddatblygu medrau datrys problemau mewn mathemateg, mae athrawon yn defnyddio sbardunau difyr i fynd yn ôl at ddysgu blaenorol perthnasol, cyn symud ymlaen i ddadansoddi dosbarthiad amrywiaeth o ddata trwy blotiau blwch a blewyn.

Mae holi yn gryfder arwyddocaol yn yr ysgol. Mae holi'r rhan fwyaf o athrawon yn effeithiol iawn ac mae llawer o athrawon yn procio i ddenu ymatebion datblygedig, llawn, gan ysgogi disgyblion i roi mwy o fanylion, os bydd angen.

Defnyddir asesu yn effeithiol i ysgogi gwelliant yng ngwaith disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau adrannol yn adlewyrchu'r disgwyliadau ysgol gyfan. Ym mhob adran, mae athrawon yn addasu'r rhain yn dda i gynnwys y dulliau adborth mwyaf priodol ac effeithiol ar gyfer eu pwnc. Hefyd, defnyddir hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid yn gelfydd yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol mewn llawer o bynciau. Er enghraifft, caiff disgyblion eu haddysgu i gyflawni myfyrdodau gwerthfawr ar y medrau cyfathrebu a gweithgynhyrchu a ddatblygant wrth ailddelweddu gorchuddion ffonau mewn technoleg dylunio. Mae adborth llafar mewn gwersi yn amserol a defnyddiol at ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rhoi sylwadau ysgrifenedig adeiladol a diagnostig buddiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gweithredu'n ddi-oed ar adborth ac yn gwella'u gwaith.

Caiff y cwricwlwm ei saernïo'n ofalus i ddarparu cyfleoedd dysgu pleserus a gwerthfawr tu hwnt i'r holl ddisgyblion. Mae dyluniad blaengar y cwricwlwm wedi'i gymhwyso'n fanwl i roi dyfnder ac ehangder i brofiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae athrawon wedi mabwysiadu dull 'meistrolaeth' mewn mathemateg a Ffrangeg i annog lefelau dysgu dyfnach i bob disgybl. Mae hyn yn meithrin lefelau uchel o ddiddordeb gan ddisgyblion mewn gwersi ac mae'n cyfrannu'n eithriadol at agweddau cadarnhaol at ddysgu.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod eang, tra ystyriol, o opsiynau academaidd a galwedigaethol gwerthfawr. I ymateb i adborth gan ddisgyblion, addaswyd cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn greadigol i ganiatáu dewis ehangach o opsiynau i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Hefyd, mae'r ysgol yn darparu cyfres deilwredig o gymwysterau buddiol i grwpiau targedig o ddisgyblion agored i niwed trwy ei darpariaeth 'Q+', sydd wedi'i seilio ar fedrau. Mae ychydig bach iawn o ddisgyblion yn dilyn llwybrau dysgu galwedigaethol pwrpasol, buddiol, trwy bartneriaethau gwerthfawr â choleg lleol. Mae'r rhain yn sicrhau bod anghenion unigol y disgyblion hyn yn cael eu diwallu'n gynhwysfawr.

Caiff profiadau dysgu eu cynllunio'n ofalus i alluogi disgyblion i adeiladu'n systematig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn symud yn ddi-dor i'w cam dysgu nesaf. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae cysylltiadau cryf a gwaith cydweithredol ag ysgolion cynradd partner yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion mwy abl yn cael ei chynllunio'n fedrus ac yn effeithiol fel ei bod yn ymatebol i anghenion unigolion mewn pynciau gwahanol. Er enghraifft, mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion mwy abl yn dilyn y cymhwyster mathemateg ychwanegol, ac yng nghyfnod allweddol 5, mae disgyblion yn elwa o sesiynau pwrpasol ar gyfer arholiadau mynediad i brifysgol.

Mae'r holl ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd helaeth i gymryd rhan mewn profiadau dysgu buddiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, sy'n ymestyn ac yn dwysáu eu gwybodaeth am bwnc a'u dealltwriaeth ohono. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys gweithgareddau gwyddoniaeth, technegol, peirianneg a mathemateg (STEM) a ddarperir mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr.

Mae darpariaeth hynod effeithiol ar gyfer medrau yn cyfrannu at ddeilliannau eithriadol gan ddisgyblion. Mae cynllunio manwl er dilyniant ym medrau disgyblion yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh. Caiff y rhain eu plethu i gyd-destunau pwrpasol ar draws meysydd pwnc. Mae'r ysgol yn integreiddio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus ar gyfer grwpiau o ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt â'u llythrennedd a rhifedd, fel bod staff yn cyflwyno ymyriadau'n effeithiol mewn gwersi. Fel hyn, mae disgyblion yn parhau i ddysgu ochr yn ochr â'u cymheiriaid ac yn datblygu mwy o hyder a hyfedredd yn eu medrau mewn cyd-destun, ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cynnig amrediad eang o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu'u dealltwriaeth o dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn gyson yng nghystadlaethau'r Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd ac yn cael llwyddiant cyson ynddynt, sy'n nodwedd arbennig o gryf. Mae'r ysgol yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu'r Gymraeg a chaiff yr iaith ei dathlu'n weledol ar hyd a lled yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'i harfer gryf wrth ddysgu ac addysgu, a chynllunio'r cwricwlwm yn feddylgar, i ddatblygu ymagweddau arloesol at ddiwygio'r cwricwlwm. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion sy'n astudio pynciau'r celfyddydau mynegiannol wedi paratoi a llwyfannu ar y cyd berfformiad sy'n seiliedig ar thema Protest a threftadaeth Cymru. Bu disgyblion yn cydweithredu er mwyn cynhyrchu'r sgript, y golygfeydd a'r gerddoriaeth, ac roedd perfformiad i'r cyhoedd yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn benllanw'r gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn creu ethos cynhwysol, gofalgar, dyheadol yn llwyddiannus. Mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel, parch a goddefgarwch yn treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at lefelau lles eithriadol disgyblion, eu datblygiad personol a'r safonau cyson uchel a gyflawnant.

Mae prosesau cynhwysfawr a thrwyadl ar waith i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion trwy gydol pob cyfnod allweddol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi anghenion penodol pob disgybl unigol ac unrhyw rwystrau i'w dysgu yn arbennig o dda. Mae hyn yn galluogi arweinwyr i ymateb yn gyflym a rhoi ymyriadau ar waith sydd wedi'u haddasu'n bersonol. Mae hyn yn nodwedd gryf iawn yn yr ysgol.

Mae adroddiadau ysgrifenedig i rieni'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a gwerthfawr am gyrhaeddiad a chynnydd presennol eu plentyn, a'i agweddau presennol at ddysgu. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys targedau penodol i bwnc sy'n ddefnyddiol i helpu disgyblion i wella'u gwaith. Mae prosesau pontio wedi'u cynllunio'n dda ym mhob cyfnod allweddol ac, o ganlyniad i'r rhain, mae disgyblion yn dod i arfer yn gyflym â cham nesaf eu haddysg ac yn gwneud cynnydd da.

Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd arbennig o gryf. Mae'r ysgol yn nodi anghenion disgyblion unigol yn rhagweithiol trwy gyfarfodydd pontio effeithiol gydag ysgolion cynradd partner a'r defnydd gofalus iawn

o wybodaeth asesiadau gwaelodlin. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i lywio cynllunio gwersi. Mae cynlluniau addysgol unigol wedi'u strwythuro'n dda. Maent yn cynnwys targedau mesuradwy defnyddiol a strategaethau wedi'u hystyried yn ofalus, sy'n helpu athrawon i ddarparu cymorth buddiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r seicolegydd addysg sy'n gweithio yn yr ysgol, yr arbenigwr ar anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, a'r ymgynghorydd ar anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn cynnig ymyrraeth fewnol effeithiol a chyflym. Mae'r ddarpariaeth effeithiol hon yn cyfrannu'n hynod o dda at y deilliannau rhagorol y mae'r disgyblion hyn yn eu cyflawni. Mae canolfan adnoddau arbenigol yr ysgol i ddisgyblion ag anawsterau dysgu penodol yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i ddisgyblion o bob rhan o Gaerdydd.

Ceir cymorth helaeth a hynod effeithiol, wedi'i addasu'n unigol, i ddisgyblion agored i niwed. Mae'r gallu i elwa ar raglenni i ddatblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol, y ganolfan anogaeth a'r defnydd dychmygus o weithgareddau therapiwtig â chymorth anifeiliaid, lle y mae disgyblion yn rhyngweithio â 'chi therapi' i leddfu gorbryder, yn galluogi'r disgyblion hyn i ffynnu a datblygu'u hunanhyder a'u hunan-barch. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cryf iawn ar gyfer cynnal lefelau presenoldeb rhagorol. Mae'r rhain yn cynnwys monitro gofalus, cysylltiadau agos â rhieni a dathlu llwyddiant. Mae ethos hensefydledig 'disgyblaeth gydag urddas', y mae dulliau adferol yn ei ategu, yn helpu i hybu parch tuag at bawb. Mae hyn wedi arwain at safonau ymddygiad rhagorol ar draws yr ysgol, gan feithrin hunanddisgyblaeth disgyblion a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb yn llwyddiannus tu hwnt.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr, ffocysedig, ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio ar werthoedd personol, herio rhagfarn a datblygu empathi tuag at eraill. Mae'r rhaglen yn gwneud cyfraniad cryf iawn at ddatblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion, ac mae'n cyfoethogi'u medrau cymdeithasol yn dda. Cefnogir y ddarpariaeth hon yn effeithiol gan wasanaethau ysgol a rhaglen ysgogol 'Myfyrdod yr Wythnos'. Yn ogystal, ceir profiadau gwerthfawr mewn meysydd pwnc, er enghraifft archwilio amrywiaeth a chydraddoldeb mewn celf, hybu hawliau dynol mewn addysg grefyddol a datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol trwy astudio testunau a ddewiswyd yn ofalus mewn Saesneg.

Mae'r ysgol yn hynod lwyddiannus wrth annog disgyblion i chwarae rhan weithgar ym mywyd yr ysgol a'r gymuned ehangach, er enghraifft trwy senedd yr ysgol, y grŵp eco a phwyllgor elusennau'r ysgol. Mae'r rhain, ynghyd â chyfleoedd i fod yn gapteiniaid chwaraeon, llysgenhadon dwyieithog ac arweinwyr digidol, yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau arwain cryf a datblygu'n ddinasyddion gweithgar. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd o ansawdd uchel i ddisgyblion ddatblygu'u medrau creadigol trwy weithgareddau fel clybiau celf, amrywiaeth o grwpiau a chlybiau cerddoriaeth, gweithdai drama, ymweliadau â'r theatr a chynyrchiadau theatraidd yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer o weithgareddau gwerthfawr sy'n gwella dealltwriaeth disgyblion o ddewisiadau ffordd iach o fyw a gwerth ymarfer corff. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon allgyrsiol, clwb coginio a chyfleoedd i gael cyngor a chymorth arbenigol gan nyrs yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinyddiaeth arbennig o gryf ac effeithiol y pennaeth dros y saith blynedd diwethaf wedi arwain at lefelau presenoldeb cyson uchel, ymddygiad eithriadol ymhlith disgyblion, ac addysgu a deilliannau o ansawdd cyson uchel i ddisgyblion. Mae wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth strategol glir ar gyfer yr ysgol, sydd wedi'i seilio'n gadarn ar ddarparu addysgu a lles o ansawdd uchel i holl ddisgyblion a staff yr ysgol. Caiff y weledigaeth hon ei chyfleu'n effeithiol i'r holl staff, disgyblion a'r gymuned leol. Mae cenhadaeth, gwerthoedd a nodau'r ysgol yn adlewyrchu dyhead y pennaeth i gynorthwyo pob disgybl i gyflawni eu potensial unigol. Mae'r dyhead hwn wedi'i gyfleu'n glir yn arwyddair yr ysgol, sef 'Tua'r goleuni - Towards the light'.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd i sefydlu ethos o gydweithio a chydweithredu ymhlith yr holl staff ac arweinwyr. Maent yn modelu'r ymddygiadau a ddisgwylir, a'r lefelau uchel o barch ac ymddiriedaeth rhwng staff a disgyblion, yn effeithiol iawn. Maent wedi sefydlu athroniaeth glir o 'Ddysgu gyda'n Gilydd' i sicrhau bod yr ysgol yn fan lle y mae staff a disgyblion yn cydweithio'n effeithiol, yn mwynhau eu dysgu ac yn cyrraedd eu potensial llawn.

Mae rolau uwch arweinwyr wedi'u diffinio'n glir ac mae staff yn eu deall yn dda. Mae'r rolau hyn yn canolbwyntio'n berthnasol ar welliant parhaus ac ar les staff a disgyblion. Mae uwch arweinwyr wedi cydweithio'n eithriadol o dda i sefydlu gweithdrefnau gweithredu clir ac effeithiol, sy'n sicrhau cysondeb yng ngwaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Er enghraifft, sicrhânt fod yr holl staff yn mynd ati mewn ffordd gyson i sicrhau cyfraddau uchel o bresenoldeb gan ddisgyblion, prydlondeb ac ymddygiad yn y dosbarth ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r ysgol yn arbennig o fyfyriol, blaengar ac uchelgeisiol. Mae disgwyliadau uwch arweinwyr yn uchel ar gyfer pob agwedd ar ei gwaith. Mae diwylliant cryf o wella a phwyslais penodol ar sicrhau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau posibl. Mae trefniadau sicrhau ansawdd yn systematig, helaeth a thrylwyr. Mae'r ymagwedd hon wedi cyfrannu'n llwyddiannus at welliannau parhaus ac arwyddocaol yn ansawdd y ddarpariaeth, ac at y deilliannau rhagorol, parhaus.

Mae'r uwch dîm arwain yn rhoi pwys mawr ar les staff ac yn ei hyrwyddo'n gryf. Maent wedi datblygu siarter arloesol i staff a'i nod yw gwneud yr ysgol yn lle deniadol i weithio a dysgu. Mae diwylliant hirsefydledig o gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am ddelio â materion ysgol, yn enwedig yn gysylltiedig ag ymchwilio i addysgu a dysgu, a'u gwella.

Mae arweinwyr canol yn effeithiol tu hwnt. Cefnogant waith yr uwch dîm arwain yn fedrus ac mae cryn ymddiriedaeth broffesiynol rhyngddynt. Deallant swyddogaethau craidd yr ysgol yn eithriadol yn dda a chyfrannant yn helaeth at wella ansawdd addysgu ac at les a chynnydd disgyblion. Mae gan arweinwyr academaidd a bugeiliol fel ei gilydd ddealltwriaeth sicr o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a sut maent yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae trefniadau rheolaeth llinell yn drylwyr ac fe'u deellir yn glir. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn dwyn staff i gyfrif yn effeithiol ac mae ganddynt bwyslais cryf ar ddysgu proffesiynol.

Mae pwyslais arbennig ar ddadansoddi data'n fforensig. Mae hyn yn sylfaen i asesiad arweinwyr o effaith addysgu a dysgu ac mae'n arwain at drafodaethau gwybodus rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol am sicrhau gwelliannau pellach. Mae rhaglen helaeth, ffocysedig o adolygiadau adrannol, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a chraffu ar waith, yn ogystal ag ystyried barn staff a disgyblion. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth gadarn i arweinwyr o ansawdd y ddarpariaeth a'i heffaith ar gynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio'r dystiolaeth hon yn dda i lywio a phennu strategaethau ar gyfer gwella a mentrau sy'n cefnogi uchelgeisiau a blaenoriaethau cyffredinol yr ysgol.

Mae ethos dyheadol sy'n ategu athroniaeth yr ysgol o 'ddysgu gyda'n gilydd' yn cyfrannu'n llwyddiannus at y diwylliant dysgu proffesiynol egnïol. Mae'r staff yn rhannu ymrwymiad i wella ansawdd addysgu a dysgu yn barhaus. Fel rhan o'r diwylliant hwn, mae gan yr holl staff hawl a chyfrifoldeb, a ddeellir yn dda, i ddatblygu'u harfer trwy fyfyrio cyson a dewis eang o weithgareddau dysgu proffesiynol perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys cydbwysedd addas o lwybrau ffurfiol ac anffurfiol sydd wedi'u teilwra i flaenoriaethau'r ysgol neu'r adran, a dyheadau penodol staff unigol. Yn benodol, mae pwyslais clir ar hybu arfer effeithiol yn yr ysgol ac mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

Mae llawer o staff, gan gynnwys yr holl arweinwyr pwnc, yn cymryd rhan mewn rhaglenni dysgu proffesiynol ffurfiol, er enghraifft rhaglenni i feithrin y medrau sy'n eu galluogi i ddod yn athrawon cyson ragorol neu i ddatblygu'u strategaethau arwain. Mae cyfleoedd gwerthfawr i staff gymryd rhan mewn trefniadau anogaeth yn fewnol, lle y byddant yn gweithio gyda chydweithiwr priodol i ddatblygu llwybr dysgu personoledig. Mae ymrwymiad arbennig o arloesol i ymagwedd 'ymholi gweithredol' at ddysgu proffesiynol, ar y cyd â phrifysgol leol. Mae'r fenter hon yn cynorthwyo staff yn arbennig o dda i ddatblygu ymagweddau 'ymholi gweithredol' pwrpasol a nodir trwy amcanion rheoli perfformiad ac ymgymryd â chyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol. Er enghraifft, fel rhan o brosiect ymholi gweithredol yn gysylltiedig â 'Damcaniaeth Llwyth Gwybyddol', fe wnaeth yr adran hanes brofi strategaethau'n llwyddiannus i helpu disgyblion gofio ac adalw gwybodaeth am y ffordd y gwnaeth Hitler ddod i rym. Bellach, mae'r ymagweddau hyn yn cael eu mabwysiadu gan adrannau eraill.

Mae'r ysgol yn eithriadol o ragweithiol wrth gynnig arweiniad i, a chyfrannu at, amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu proffesiynol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae llawer o staff yn elwa o gydweithredu, o fewn yr ysgol a thrwy rwydweithiau arfer broffesiynol sefydledig. Mae'r gweithgareddau hyn yn ychwanegu at allu'r ysgol ei hun i wella.

Mae llywodraethwyr yn gwybod ac yn deall cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn dda. Cefnogant y pennaeth a'r uwch dîm arwain yn effeithiol i gyflawni eu gweledigaeth ar gyfer yr ysgol. Mae ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd i herio arweinwyr i fyfyrio a gwella pob agwedd ar waith yr ysgol yn barhaus, lle bo angen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i fonitro'i chyllid. Trefnir gwariant i gyd-fynd yn agos â blaenoriaethau strategol yr ysgol. Caiff cyllid ei neilltuo'n deg i adrannau ac mae'r pennaeth, yr uwch dîm arwain, y llywodraethwyr a'r rheolwr busnes yn monitro gwariant yn fanwl. Mae'r ysgol wedi cynnal cyllideb gytbwys am y pum mlynedd diwethaf ac mae ganddi arian priodol wrth gefn. Mae gan yr ysgol

adnoddau da i gefnogi dysgu ac mae'n cynnig amgylchedd dymunol a deniadol i ddisgyblion ddysgu ynddo. Mae'r ysgol yn cyflogi ei staff arbenigol ei hun, er enghraifft seicolegydd addysg ac athrawon cymorth arbenigol ar gyfer awtistiaeth ac ymddygiad. Mae'r ysgol yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol i gefnogi disgyblion agored i niwed yn uniongyrchol, lle bo'n briodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/05/2019